# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Pennal View Ltd**

**Cartref Preswyl Pennal View**
**Blaenpennal**
**Aberystwyth**
**SY23 4TR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Pennal View Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Gofal Preswyl Pennal View Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y staff ac yn disgrifio'r ymdeimlad o deulu sy'n bodoli yn y gwasanaeth. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau effeithiol â'r tîm o staff sensitif a gofalgar.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Mae'r darparwr wedi cwblhau gwaith mewnol ac allanol yn y gwasanaeth ac mae ganddo gynlluniau i barhau â'r gwelliannau hyn.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio yn y cartref o ddydd i ddydd ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r wybodaeth a gesglir drwy ei ymweliadau a'i archwiliadau mewnol yn llywio'r adolygiad o ansawdd y gofal, a gynhelir bob chwe mis. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl yn dda, yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'u cynrychiolwyr a gall y staff fynd ato yn hawdd.

Rydym wedi nodi proses oruchwylio'r gwasanaeth fel Maes i'w Wella a byddwn yn gwirio'r broses yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl am fod y rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae ymdeimlad teuluol yn y gwasanaeth ac mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff yn gadarnhaol. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio effeithiol ar waith. Mae'r systemau hyfforddiant yn cael eu gwella er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn rhoi'r gofal a'r cymorth cywir i'r bobl. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus ac mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd a darllen llyfrau neu bapurau newydd. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am gynlluniau i wella'r hygyrchedd i'r gerddi er mwyn sicrhau y gall y bobl ddefnyddio'r ardal ac er mwyn eu helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae gan y bobl lais am eu bod nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda ac yn cael eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i defnyddio er mwyn helpu i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth effeithiol sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cynnes a chyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Dywedodd unigolyn wrthym, *“The staff are wonderful, they are very, very kind”*. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth, *“I'm very happy with the care, she's well cared for and quite content”.* Mae'r gweithwyr gofal angerddol yn adnabod y bobl yn dda, ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“The residents are lovely it's like a big family”.*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau personol, ond mae angen cofnodi hyn. Mae dogfen am y person, o'r enw ‘Dyma fi’ yn helpu'r staff i ddysgu am y bobl a'u dewisiadau. Wrth drafod cynlluniau personol, dywedodd gweithiwr gofal, *” They are very helpful to get to know people, especially when we get a new resident“.* Mae'r rheolwr yn adolygu'r cynlluniau personol bob tri mis i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau gofal y bobl pan fo angen. Mae asesiadau risg yn cefnogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth, ac yn eu helpu i gadw mor ddiogel â phosibl.

Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i ddiwallu anghenion y bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio amyneddgar, llawn dealltwriaeth yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd o ddydd i ddydd, fel darllen papurau newydd, gwrando ar lyfrau sain, gwylio'r teledu a sgwrsio â'i gilydd. Mae'r rheolwr yn edrych ar gyfleoedd gwahanol i gynyddu amrywiaeth y gweithgareddau strwythuredig sydd ar gael yn y cartref.

Mae'r systemau storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i sicrhau bod y dosau cywir o feddyginiaeth yn cael eu rhoi i'r bobl ar yr amser cywir.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyson i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r bobl yn treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol yn rhyngweithio â'i gilydd a gyda'r tîm o staff neu yn eu hystafelloedd yn ymgymryd â'u gweithgareddau eu hunain. Caiff y bobl gymorth i bersonoli eu hystafelloedd â'u dewis o ddécor, lluniau a dodrefn. Gall y bobl symud o gwmpas y cartref yn annibynnol, gyda chymorth gan y staff neu gyda chymhorthion symudedd.

Mae gan y darparwr raglen ar gyfer gwaith uwchraddio wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau y caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn diwallu anghenion y bobl. Mae drysau mewnol newydd wedi cael eu gosod, mae nifer o'r ystafelloedd gwely wedi cael eu hailaddurno ac mae un ystafell ymolchi wedi cael ei hadnewyddu. Mae ffenestri a chafnau newydd wedi'u gosod ar ran o'r cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu gosod ffenestri a chafnau newydd ar ardaloedd eraill y cartref yn y dyfodol agos, yn ogystal â datblygu ardal batio newydd y tu blaen i'r adeilad er mwyn i'r bobl fwynhau'r awyr agored. Dywedwyd wrthym fod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i unrhyw broblemau'n ymwneud â'r amgylchedd a bod gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau'n brydlon.

Caiff archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo. Mae'r trefniadau ar gyfer profi'r systemau a chyfarpar diogelwch tân yn gyfredol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael sgôr o 5 ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r bobl yn mwynhau prydau bwyd cartref ac mae'r staff yn deall sut yr hoffai pob unigolyn fwyta eu prydau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o'r prosesau ar gyfer rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae'r bobl a'r staff yn ei ddisgrifio fel unigolyn cefnogol sy'n hawdd mynd ato. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar, llawn dealltwriaeth rhwng yr Unigolyn Cyfrifol a'r bobl yn ystod yr arolygiad. Wrth drafod yr Unigolyn Cyfrifol, dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *"He's really good and you can't fault him"* a *"He's very approachable and easy to talk to".* Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn dda ac yn cyfathrebu â nhw yn ddyddiol. Caiff adroddiadau ar ymweliadau bob tri mis eu cwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol a defnyddir y wybodaeth hon ynghyd ag adborth a'r archwiliadau mewnol i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

Mae'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth ac yn deall anghenion pob unigolyn. Ceir diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y gwasanaeth. Disgrifiodd y staff yr ymdeimlad o deulu a dywedodd un, *"We try and make it feel like the residents are in their own home".* Disgrifiodd y cynrychiolwyr drefniadau cyfathrebu da a dywedodd un ohonynt wrthym, *"[RI] and [Manager] are very approachable. If there is a problem I am kept in the loop".*

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato a'u bod yn gallu siarad ag ef yn hawdd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael sesiynau goruchwylio wyneb yn wyneb bob tri mis ac ni chynhelir cyfarfodydd tîm. Mae hyn yn golygu nad yw'r staff yn cael cyfle un i un i drafod eu perfformiad personol nac yn cael cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol hyn a dywedodd wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Rydym wedi nodi hyn fel Maes i'w Wella, ac rydym yn disgwyl i sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd tîm gael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau.

Mae staff newydd yn cwblhau sesiynau sefydlu ac mae pob gweithiwr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol parhaus a hyfforddiant sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Fodd bynnag, gwelsom nad yw hyfforddiant gorfodol bob amser yn cael ei neilltuo mewn modd amserol; ymatebodd y rheolwr ar unwaith a chofrestru pob aelod o'r staff ar y cyrsiau perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ond nid oedd y cofnodion cyfredol ar gael.  Byddwn yn gwirio am y cofnodion hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae trafodaethau â'r staff yn dangos ymwybyddiaeth dda o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion yn briodol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n cefnogi arferion da.

Cynhelir y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r gwasanaeth wedi recriwtio aelodau newydd o staff er mwyn sicrhau bod nifer digonol o

weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl yn dda ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y staff yn cael goruchwyliaeth briodol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2024